

CEFNOGI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) 2021/22



Chi Yw'ch Dyfodol



Croeso i Grŵp Colegau NPTC

Rydym yn goleg gofalgar, ac rydym yn croesawu pob myfyriwr i'n cymuned. Rydym bob amser yn rhoi myfyrwyr wrth galon popeth rydym yn ei wneud. Mae'n bwysig i ni fod gan ein myfyrwyr lais, a'u bod yn ymwneud â phenderfyniadau a wneir amdanynt.

Mae gan ein tîm lawer o brofiad a byddant bob amser yn ymdrechu i gael y canlyniadau gorau i bob myfyriwr.

Ein nod yw **'meithrin myfyrwyr i sicrhau mwy o annibyniaeth'**

CYSYLLTU Â NI

Os hoffech chi drafod eich anghenion cymorth ychwanegol, cysylltwch â'r Tîm ADY:

ALN@nptcgroup.ac.uk



CYN I CHI DDECHRAU'R COLEG

Mae ein Swyddogion Pontio yn gweithio gyda myfyrwyr, rhieni / gofalwyr, ac ysgolion i gynllunio ar gyfer y coleg, a byddant yn gweithio gyda myfyrwyr trwy gydol eu hastudiaethau.

Gall staff y coleg fynychu adolygiadau blynyddol ysgolion i drafod anghenion dysgu ychwanegol a chynlluniau datblygu unigol (CDU).

Bydd y coleg yn gweithio'n agos gyda phawb sy'n ymwneud â gofal a dysgu myfyrwyr i sicrhau bod y trosglwyddo o'r ysgol i'r coleg yn rhedeg yn esmwyth.

Beth sy'n digwydd cyn i fyfyrwyr ddechrau'r coleg?

- Gwahoddiad i fynychu diwrnod blasu coleg neu ymweliad wedi'i drefnu dros wyliau'r haf os oes angen
- Trafodaethau gyda'n tîm cymorth myfyrwyr am bethau fel, opsiynau gyrfa, teithio i'r coleg a chynlluniau trosglwyddo
- Gwahoddiad i 'fore coffi' i ddarganfod mwy am y coleg, cwrrd â staff a gofyn cwestiynau
- Mynediad i lawer o deithiau rhithwir defnyddiol a fideos ar wefan ein coleg
- Cymorth i lenwi'r ffurflen gais a gwneud cais i'r coleg
- Cymorth gyda chyllid a chyllido
- Cefnogaeth yn ystod y diwrnodau sefydlu i helpu i ymgartrefu
- Swyddog Llesiant dynodedig sy'n bwynt cyswllt ar gyfer unrhyw bryderon.

Bydd ein tîm cymorth i fyfyrwyr yn gweithio gyda darlithwyr a staff i sicrhau eu bod yn ymwybodol o anghenion myfyrwyr ac yn eu deall cyn iddynt ddod ac yn ystod eu cyfnod yn y coleg.



CYMORTH TECHNOLEG GYNORTHWYOL

Gallwn gynnig llawer o wahanol fathau o feddalwedd ac offer i helpu gyda dysgu, fel:

- Meddalwedd darlennydd trochi
- Meddalwedd lleferydd i destun
- Pinnau darllen electronig
- Offer dysgu Microsoft
- Darlennydd trochi
- Map meddwl a meddalwedd cymryd nodiadau.

Rydym yn defnyddio adnoddau ar-lein i helpu myfyrwyr wrth gyfathrebu. Gallwn gynnig mynediad i:

- Widget Ar-lein
- Makaton Ar-lein
- Meddalwedd Math Cyffwrdd
- Apiau i Ddysgu

Mae gennym setiau teledu sgrin gyffwrdd 60 modfedd newydd o'r radd flaenaf, gyda llawer o offer dysgu ychwanegol.

Gallwn gynnig cefnogaeth ar gyfer namau synhwyraidd. Mae gennym ystod o offer i fyfyrwyr eu benthyg ar gyfer namau ar eu clyw a'u golwg, gan gynnwys:

- Cymhorthion a Derbynyddion Radio
- Gliniaduron ac iPads
- Offer chwyddo.



ANAWSTERAU DYSGU PENODOL (SPLD)

Bydd ein Aseswyr SpLD yn gweithio gyda myfyrwyr a darlithwyr i sicrhau bod ganddynt yr offer cywir ar gyfer eu dysgu.

Offer Sgrinio Ar-lein

Gallwn gynnig asesiadau sgrinio ar-lein ar gyfer SpLD (Anawsterau Dysgu Penodol) a Threfniadau Mynediad i Arholiadau. Byddwn yn cwrdd â'r myfyriwr i drafod canlyniad y sgriniwr a chytuno ar gynllun cymorth gyda nhw.

Asesiadau Mynediad i Arholiadau

Os oes gan fyfyriwr anhawster dysgu gall ein hasesydd drefnu cyfarfod â nhw i gyflawni rhai profion byr i wneud cais am drefniadau mynediad i arholiadau. Bydd y coleg hefyd yn gweithio gydag ysgolion a darlithwyr i gasglu gwybodaeth.

Asesiad o anghenion

Bydd gan bob myfyriwr sy'n datgelu Anhawster Dysgu Penodol wrth gofrestru asesiad anghenion gan aelod o'n tîm Cymorth i Fyfyrywyr. Yma trafodir cefnogaeth, a chynllun y cytunwyd arno i helpu'r myfyriwr i symud ymlaen gyda'i astudiaethau.

Cymorth Sgiliau Astudio 1:1

Gall myfyrwyr gael gafaél ar gymorth wythnosol gyda'n tîm Cymorth i Fyfyrywyr lle gallant ganolbwyntio ar strategaethau penodol ar gyfer dysgu a llawer mwy.

Benthyg Offer

Gallwn fenthyg offer, fel:

- Troshaenau a phapur lliw
- Mynediad i feddalwedd darllen ac ysgrifennu
- iPads a Gliniaduron
- Pinnau darllen

Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA)

Gall y Tîm Cymorth i Fyfyrywyr atgyfeirio myfyrwyr am asesiad diagnostig SpLD i gefnogi cais DSA. Gwnewch apwyntiad gyda ALNCo'r Coleg (Cydllynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol) i drafod ymhellach.



ANHWYLDERAU'R SBECTRWM AWTISTIAETH

Bydd ein Cydlynnydd Awtistiaeth arbenigol yn gweithio gyda myfyrwyr, rhieni/ gofalwyr, ac ysgolion i gytuno ar gynllun pontio cyn i'r coleg ddechrau.

Y Cydlynnydd ASD fydd pwynt cyswllt y myfyrwyr pan fyddant yn y coleg a bydd yn ateb ac yn delio ag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.

Mae gennym grŵp ymroddedig o Hyrwyddwyr ASD sy'n staff a myfyrwyr ac sydd ar gael i weithio gyda myfyrwyr trwy gydol eu hamser yn y coleg. Gallant gefnogi gyda llawer o bynciau fel:

- Cyfeillgarwch
- Glasoed
- Dod yn Oedolyn
- Anawsterau synhwyrdd
- Cwsg, diet ac iechyd
- Sgiliau cyfathrebu
- Trefnu a gwaith coleg

Mae ein staff yn y coleg wedi derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Awtistiaeth gydag Awtistiaeth Cymru ac yn gweithio tuag at 'Statws Cyfeillgar i Awtistiaeth' achrededig ar draws ein holl gampsau.

Mae gennym grŵp ymroddedig o staff sy'n gymwys ar Lefel Ôl-radd 7 mewn Anhwylderau Sbectrum Awtistiaeth a all gynnig cefnogaeth fwy personol a phwrpasol.



CYMORTH PERSONOL

Gall ein Cynorthwyrwr Cymorth Astudio gynnig cymorth gofal personol i fyfyrwr. Mae gennym offer arbenigol ar ein holl brif gampysau, gan gynnwys:

- Cyfleusterau codi
- Gwely newid gofal personol.

Mae ein holl staff wedi'u hyfforddi mewn codi a chario, codi a gofal personol. Mae ein tîm yn brofiadol, ac mae urddas a gofal myfyrwr yn bwysig iawn i ni. Mae'r holl staff yn gweithio mewn parau wrth gyflawni unrhyw ofal personol o dan bolisi diogelu'r coleg. Bydd pob myfyrwr sydd angen gofal personol yn derbyn cynllun gofal unigol.

Gall ein staff Cymorth:

- Helpu a goruchwyllo myfyrwr yn ystod amser cinio ac egwyl
- Cynorthwyo myfyrwr ag anghenion dietegol a bwydo
- Helpu myfyrwr i ddatblygu eu gofal personol a'u sgiliau byw'n annibynnol
- Cynnig help gyda meddyginiaeth a storio meddyginiaeth
- Darparu cefnogaeth symudedd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae Staff Cymorth wedi'u hyfforddi i gynnig:

- Cymorth cyntaf brys
- Cefnogaeth epilepsi
- Cefnogaeth diabetes a defnyddio offer monitro
- Codi a Chario a Gofal Personol.



CYMORTH ASTUDIO

Mae angen ar lawer o fyfyrwyr, am amrywiaeth o resymau, gymorth ychwanegol er mwyn llwyddo yn eu hastudiaethau a chyflawni eu potensial. Rhoddir asesiad anffurfiol o anghenion cymorth i bob myfyriwr amser llawn ar ddechrau'r cwrs neu yn y cyfweliad.

Gall ein Hyfforddwyr Cymorth Astudio gynnig help gydag unrhyw beth o sgiliau ysgrifennu, adolygu arholiadau i weithdai grŵp ac un i un.

Mae'r Tîm Cymorth Astudio wedi'i leoli ledled ein holl Barthau Myfyrwyr ar y campws ac mae'n gallu cynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth i'r holl fyfyrwyr.

CYMORTH ASTUDIO

Mae gan bob un o'r prif gampysau 'Barth Myfyrwyr' ar wahân. Mae gan yr ardaloedd hyn le tawel i fyfyrwyr weithio, astudio neu ymlacio ynddo.

CYMORTH LLESIANT

Mae ein tîm Llesiant ar gael i gynnig help un i un i fyfyrwyr sydd angen cefnogaeth emosïynol. Bydd gan bob myfyriwr y nodwyd ei fod yn agored i niwed Swyddog Llesiant dynodedig, a fydd yn bwynt cyswllt trwy gydol eu hastudiaethau. Byddant yn gweithio gyda myfyrrwyr i ddatblygu:

- gwytnwch
- hunanymwybyddiaeth
- sgiliau cyfathrebu
- hyder
- penderwtydd

Mae'r coleg hefyd yn cynnig gwasanaeth cwnsela i fyfyrwyr sydd angen cefnogaeth fwy arbenigol. Gellir atgyfeirio myfyrrwyr am hyd at 6 sesiwn gyda chwnselydd cymwys.